20.01.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Jacob yn mwynhau bod yng nghanol cyffro Pobol y Cwm

Nid yw pethau wedi bod yn rhwydd ar un o drigolion ifancaf **Pobol y Cwm** sef Aled (Jacob Oakley). Mae ei fywyd teuluol wedi bod yn un anhapus a threisgar ac fe gafodd affêr gyda Tyler a oedd yn athro ysgol iddo ar y pryd.

Ond nawr mae Aled i'w weld mewn lle llawer gwell - mae mewn perthynas sefydlog a hapus gyda Tyler (Aled Llyr Davies), wedi cael ei dderbyn gan chwaer Tyler, Dani (Elin Harries) ac mae ganddo ffrind da yn Tesni (Lois Meleri Jones).

Ond yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae byd Aled wedi cael ei droi ben ei waered wrth iddo ddarganfod taw Dylan (Gareth Jewell) yw ei dad. I ddechrau mae Aled yn hapus i gael y cyfle i ddod i adnabod ei dad ond mae'n amlwg bod Dylan ddim yn teimlo'r un peth ac mae e'n barod i wneud unrhyw beth i osgoi ei gyfrifoldebau.

Mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth wrth i Aled, yn ei siom a'i ddicter benderfynu dial ar ei dad gyda chanlyniadau difrifol iawn i sawl un yn y Cwm.

Dyma gyfle i glywed mwy am Aled gan yr actor sydd yn chwarae rhan y cymeriad sef Jacob Oakley, 23, sy'n wreiddiol o Rhymney ond nawr yn byw ym Merthyr Tydfil.

Helo Aled, sut wyt ti'n teimlo i fod yn rhan o'r gyfres eiconig Pobol y Cwm?

Roedd e'n rhywbeth mawr i fi i fod yn **Pobol y Cwm**. Dw i wedi cael croeso cynnes iawn gan y cast. O'n i nabod rhai ohonyn nhw ac wedi gweithio gyda nhw o'r blaen - Gareth Jewell ar Gwaith Cartref a The Indian Doctor. Ond mae'n eitha' *daunting* i ddod mewn i rywbeth fel Pobol y Cwm lle mae pawb yn nabod ei gilydd, ond dw i'n teimlo fy mod i wedi setlo'n dda.

Disgrifia bersonoliaeth Aled...

Rwy wedi mwynhau dod i nabod personoliaeth Aled a chreu bach o *backstory* iddo. Roedd gan Aled rhan fach i ddechrau er oedd e yn rhan o stori fawr. Roedd e'n dawel ond roedd e'n gymeriad danjerys - wnaeth e ddod rhwng Tyler ac Iolo a chwalu eu perthynas. Roedd e'n lot o hwyl i chwarae ac o'n i wastod yn gobeithio, fel oedd y stori yn mynd ymlaen, efallai byddai mwy i ddod o gymeriad Aled.

Mae Aled yn hoyw ac o'n i erioed wedi chwarae cymeriad hoyw o'r blaen. Roedd Aled yn hyderus iawn o'i rywioldeb, roedd e eitha' agored am y peth a dyna sut o'n i eisiau chwarae'r cymeriad. Mae gen i ffrindiau hoyw a dw i'n gwybod pa mor anodd oedd e iddyn nhw ddod mas - felly dw i wedi treial dod a tipyn bach o hwnna i'r cymeriad.

Mae Aled yn hapus i ddod o hyd i'w dad ond mae e wedi bod bach yn *naive* i feddwl bod Dylan yn mynd i gymryd ato fe'n syth. Dyw e ddim yn nabod Dylan a ddim rili yn gwybod sut fath o ddyn yw e ond dros yr wythnosau mae e'n darganfod mwy.

Dwi'n meddwl bod elfen eitha' diniwed i gymeriad Aled ac yn y ffordd mae e'n ymateb i bethau. Mae e wedi bod drwy lot ond does dim y profiad gyda fe i ddelio gyda'r pethau dwys yma sy'n digwydd iddo fe. Mae cymaint o bwysau ar ei ysgwyddau a dim ond 18 mlwydd oed yw e.

Rwyt ti yng nghanol stori fawr ar hyn o bryd - wyt ti'n mwynhau chwarae rhan mor heriol?

Ydw! Pan ddechreuais i ar **Pobol y Cwm**, roedd lot o olygfeydd gyda Tyler neu Iolo (Dyfan Rees). Ond nawr mae hyn wedi ehangu a dw i'n cael gweithio gydag actorion eraill fel Gareth Jewell ac Elin (Harries). I fi, fel actor, dw i'n croesawu pethau mwy heriol, sy'n eitha' dwys ac sy'n gwthio fi i'r dibyn. Rwy'n awyddus i ddysgu a gwneud y mwyaf o'r profiad.

Beth yw dy obeithion am gymeriad Aled?

Fel person, hoffwn i weld popeth yn dod at ei gilydd i Aled. Mae e wedi bod trwy cymaint. Mae e jysd eisiau perthynas tad a mab normal gyda Dylan. Ond fel actor hoffwn i weld mwy o ddrama ym mywyd Aled!

Fel rhan o'r stori, roedd rhaid i ti fod mewn stynt arbennig lle mae Aled am fwrw rhywun gyda char. A wnes ti fwynhau hyn?

Do! Dw i wastod wedi mwynhau dringo a neidio off pethau ac o'n i wir yn lico bod yn rhan o'r stynt. Roedd angen i fi yrru'r car ond yn amlwg y bobl stynt proffesiynol oedd yn gwneud popeth ond roedd e'n anhygoel i weld nhw wrth eu gwaith a'r sgiliau sydd ganddyn nhw. Roedd e'n gymaint o hwyl ac eitha' *exhilarating!*

Pobol y Cwm
Llun, Mawrth, Mercher & Iau 8.00; S4C
Isdeitlau Cymraeg a Saesneg
Omnibws bob dydd Sul gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrin
Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad BBC Cymru

Life hasn't been easy for one of Cwmderi's youngest residents, Aled (Jacob Oakley). His family life has been unhappy and violent, and he had an affair with his schoolteacher. He seems to be in a better place now as he is in a settled relationship and has met his father for the first time. But more trouble awaits ...